Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 5 Rhagfyr 2013**

Amser:
**09:10 - 16:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Llinos Madeley/Helen Finlayson**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8403/8600
PwyllgorIGC@cymru.gov.uk

## Agenda

**(Rhag-gyfarfod - 09:10 - 09:15)**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru): Cyfnod 2 - Trafod y gwelliannau (09:15 - 16:00)

Yn unol â Rheol Sefydlog 26.21, bydd y Pwyllgor yn gwaredu gwelliannau i'r Bil yn y drefn a ganlyn:

- Adrannau 43-69
- Atodlen 1
- Adrannau 70-119
- Atodlen 2
- Adrannau 120-160
- Atodlen 3
- Adrannau 161-169
- Adran 1
- Teitl hir

Dogfennau ategol:
Rhestr o welliannau wedi'u didoli, 5 Rhagfyr 2013
Grwpio gwelliannau, 5 Rhagfyr 2013

Yn bresennol:
Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

Sylwer: Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn galw am egwyliau ar adegau addas yn ystod trafodion.

## 3 Papurau i'w nodi (Tudalennau 1 - 3)

**Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol: Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru): taliadau uniongyrchol** (Tudalennau 4 - 8)

**Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â'r cynllun 'Pan fydda i'n barod'** (Tudalennau 9 - 10)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

## 5 Ystyriaeth o'r flaenraglen waith (16:05 - 16:30) (Tudalennau 11 - 14)

# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 21 Tachwedd 2013** |
| Amser: | **09:31 - 11:44** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_21_11_2013&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | David Rees (Cadeirydd)<br>Leighton Andrews<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Rebecca Evans<br>William Graham<br>Elin Jones<br>Lynne Neagle<br>Gwyn R Price<br>Lindsay Whittle<br>Kirsty Williams |
| Tystion: | David Thomas, Llywodraeth Cymru<br>Lisa Howells, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Llinos Madeley (Clerc)<br>Sarah Sargent (Dirprwy Glerc)<br>Victoria Paris (Ymchwilydd)<br>Stephen Boyce (Ymchwilydd)<br>Philippa Watkins (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Darren Millar. Dirprwyodd Mohammad Asghar AC ar ei ran.

## 2 Sesiwn graffu gyffredinol gyda'r Prif Swyddog Deintyddol

2.1 Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn graffu gyffredinol gyda David Thomas, y Prif Swyddog Deintyddol, a'i gydweithiwr Lisa Howells, sy'n Uwch-swyddog Deintyddol.

2.2 Cytunodd y Prif Swyddog Deintyddol i ddarparu'r canlynol i'r Pwyllgor:

- gwybodaeth ychwanegol am y gwerthusiadau a wnaed mewn perthynas â safon a chanlyniadau'r cynlluniau peilot deintyddol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- gwybodaeth ychwanegol am y rhesymau pam na chaiff dyraniadau cyllid i ddeintyddfeydd unigol eu cyhoeddi mwyach;
- copi o ganllawiau diwygiedig Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ymdrin ag achosion o golli apwyntiadau, pan fyddant ar gael;
- nodyn ar y gwasanaethau orthodontig ychwanegol a gomisiynwyd yn ddiweddar gan Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, a chopi o'r data ychwanegol ar weithgarwch orthodontig yng Nghymru y cyfeiriodd ato yn ystod y cyfarfod;
- nodyn ar y camau y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn eu cymryd mewn perthynas â gwynnu dannedd ac achosion o roi triniaeth ddeintyddol yn anghyfreithlon;
- gwybodaeth am nifer yr ymweliadau deintyddol i'r cartref a gynhaliwyd yng Nghymru y llynedd.

## 3 Papurau i'w nodi

3.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd a 13 Tachwedd.

3.1 Gwybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd i'r ymchwiliad dilynol i leihau'r risg o strôc yn dilyn y sesiwn ar 23 Hydref

3a.1 Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ychwanegol mewn perthynas â'r ymchwiliad dilynol i leihau'r risg o strôc.

3.2 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – darparwr brechiad sengl ar gyfer y frech goch

3b.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â darparwyr brechiad sengl y frech goch.

3.3 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – cynlluniau gofal heb ei drefnu a chynlluniau gaeaf ffurfiol

3c.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â chynlluniau gofal heb ei drefnu a chynlluniau gaeaf ffurfiol.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Sesiwn graffu gyffredinol gyda'r Prif Swyddog Deintyddol – trafodaeth breifat i ystyried y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd yn y sesiwn gynharach gyda'r Prif Swyddog Deintyddol.

## 6 Trafod y materion allweddol sy'n codi o'r ymchwiliad dilynol i leihau'r risg o strôc

6.1 Trafododd y Pwyllgor y materion allweddol sy'n codi o'r ymchwiliad dilynol i leihau'r risg o strôc a chytunodd i ysgrifennu'n fuan at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gan amlinellu ei gasgliadau.

## 7 Trafod y materion allweddol sy'n codi yn sgîl sesiwn graffu'r Pwyllgor ar ofal heb ei drefnu – bod yn barod ar gyfer gaeaf 2013/14

7.1 Trafododd y Pwyllgor y materion allweddol sy'n codi o'r sesiwn graffu ar ofal heb ei drefnu - bod yn barod ar gyfer gaeaf 2013/14, a chytunodd i ysgrifennu'n fuan at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gan amlinellu ei gasgliadau.

## 8 Cylch Gorchwyl

8.1 Trafododd y Pwyllgor bapur ar gylchoedd gorchwyl pwyllgorau. Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at y Llywydd.

**Gwenda Thomas AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cyf: LF GT 734 13

David Rees AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal
Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

25 Tachwedd 2013

Annwyl David,

**Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) – Taliadau Uniongyrchol**

Yn unol â fy hymrwymiad i hysbysu'r Pwyllgor am faterion sy'n effeithio ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), rwy'n ysgrifennu atoch ynghylch darparu taliadau uniongyrchol yn y dyfodol yng Nghymru. Mae hyn drwy gadarnhau fy ymateb i argymhelliad Adroddiad Craffu Cyfnod 1 y Pwyllgor ar roi dyletswydd ar awdurdodau lleol o dan adran 34 y Bil i hyrwyddo taliadau uniongyrchol.

Fel y Pwyllgor, rwy'n awyddus i gynyddu'r niferoedd sy'n derbyn taliadau uniongyrchol yng Nghymru, gan sicrhau bod y rheini a fydd yn elwa yn gwybod am yr opsiwn hwn ac yn gallu gwneud dewis gwybodus ynghylch a yw taliad uniongyrchol yn addas iddyn nhw. Er mwyn hwyluso hyn, mae'r Grŵp Trosolwg Taliadau Uniongyrchol wedi llunio set o egwyddorion allweddol ar ddarparu taliadau uniongyrchol yn y dyfodol, ac rwy'n atodi copi o'r set er gwybodaeth i'r Pwyllgor.

Sefydlais y Grŵp Trosolwg Taliadau Uniongyrchol nifer o flynyddoedd yn ôl i fy nghynghori ar faterion polisi ynghylch taliadau uniongyrchol a monitro sut mae trefniadau taliadau uniongyrchol yn gweithio ledled Cymru. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol, y trydydd sector a'r rheini sy'n derbyn taliadau uniongyrchol. Mae gwaith dau rwydwaith arall yn dylanwadu arno, sef Fforwm Taliadau Uniongyrchol Cymru gyfan (ar gyfer swyddogion taliadau uniongyrchol awdurdodau lleol) a'r Rhwydwaith Cynlluniau Cymorth Taliadau Uniongyrchol (sy'n tynnu darparwyr cynlluniau cymorth ynghyd ledled Cymru). Cynrychiolwyr y trydydd sector ar y Grŵp Trosolwg yw Anabledd Cymru, Age Cymru a Chymdeithas MS Cymru.

Gofynnais i'r Grŵp Trosolwg weithio gyda fy swyddogion i ddatblygu set o egwyddorion allweddol ar ddarparu taliadau uniongyrchol yn y dyfodol yng Nghymru. Diben hyn oedd fy helpu i gyflawni fy mwriad polisi ynghylch y ddarpariaeth ohonynt yn y dyfodol o dan y Bil er mwyn cynyddu'r niferoedd sy'n eu derbyn, gan ei gwneud yn hawdd i'r rheini sydd am elwa arnynt eu derbyn a gallu eu defnyddio'n effeithiol i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth. Cyfarfu'r Grŵp Trosolwg rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf eleni i ddatblygu'r

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Gohebiaeth.Gwenda.Thomas@cymru.gsi.gov.uk



*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)* *Printed on 100% recycled paper*

egwyddorion hyn. Bydd y Grŵp a fy swyddogion yn eu defnyddio i ategu'r gwaith o gyd-gynllunio'r rheoliadau a'r cod ymarfer ar daliadau uniongyrchol a ragwelir yn y Bil i sicrhau bod fy nyheadau polisi'n cael eu gwireddu'n ymarferol.

O ran argymhelliad Cyfnod 1 y Pwyllgor ynghylch rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo taliadau uniongyrchol, er fy mod yn deall y bwriad sy'n sail i hyn, rwy'n credu bod ffordd fwy priodol o wneud hyn. Rwy'n pryderu y gellid camddehongli rhoi dyletswydd o'r fath ar awdurdodau, gan arwain at hyrwyddo taliadau uniongyrchol o flaen ffyrdd eraill o ddiwallu anghenion gofal a chymorth, ac felly dyma fyddai'r ffordd ddiofyn o ddiwallu anghenion o'r fath. Er bod taliadau uniongyrchol yn cynnig dewis go iawn yn y ffordd y caiff anghenion gofal a chymorth rhai pobl eu diwallu, a'u bod felly'n briodol, nid taliadau uniongyrchol yw'r ateb i eraill. Rwy'n nodi mai barn y mwyafrif o'r Pwyllgor oedd nad oeddent am weld taliadau uniongyrchol fel y ffordd ddiofyn o ddarparu gofal a chymorth yng Nghymru.

O ganlyniad, i gydnabod argymhelliad y Pwyllgor, rwyf wedi cyflwyno gwelliannau gan y Llywodraeth i fynd i'r afael â'r mater hwn. Mae'r cyntaf, sef gwelliant y Llywodraeth 139, yn gofyn bod Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau fel bod yn rhaid iddynt ragnodi'r camau y mae'n rhaid i awdurdod lleol eu cymryd i sicrhau y gall y rheini sy'n gallu derbyn taliad uniongyrchol wneud penderfyniad gwybodus ynghylch a yw taliad uniongyrchol yn briodol iddyn nhw. Drwy hyn, gallwn sicrhau bod y rheini a all dderbyn taliad uniongyrchol yn cael eu hysbysu am yr opsiwn hwn ac yn cael gwybodaeth allweddol er mwyn ystyried hyn heb ddylanwad amhriodol gan eu hawdurdod lleol. Byddai gwybodaeth o'r fath yn cynnwys, er enghraifft, beth fyddai eu taliad uniongyrchol yn ei gynnwys, pa gymorth y byddent yn ei gael o ddewis derbyn taliad uniongyrchol, a gwybodaeth graidd arall sy'n ofynnol i wneud penderfyniad gwybodus. Mae'r ail, sef gwelliant y Llywodraeth 504, yn ychwanegu'r opsiwn o dderbyn taliad uniongyrchol i'r rhestr o ffyrdd y gellir diwallu anghenion gofal a chymorth fel yr amlinellir yn adran 20(2) y Bil. Mae hyn i sicrhau bod y Bil yn pwysleisio'r opsiwn o dderbyn taliad uniongyrchol i ddiwallu anghenion gofal a chymorth, ond bod hynny'n digwydd yng nghyd-destun y ffyrdd eraill o ddiwallu anghenion o'r fath. Fel y gwyddoch rwyf hefyd wedi cyflwyno diwygiadau technegol a chanlyniadol ar y mater hwn.

Rwy'n gobeithio y bydd y llythyr hwn o ddefnydd i'r Pwyllgor. Rwy'n edrych ymlaen at ystyried y gwelliannau hyn pan fydd hynny'n berthnasol yn ystod trafodion Cyfnod 2. Rwy'n mawr obeithio y bydd Aelodau'r Pwyllgor yn cefnogi'r gwelliannau sydd wedi'u cyflwyno sy'n ymdrin â'u pryderon. Rwyf hefyd yn anfon llythyr tebyg at Mark Isherwood AC, ac rwyf wedi addo'i hysbysu am ddarparu taliadau uniongyrchol yn y dyfodol yng Nghymru.

Yn gywir,



**Gwenda Thomas AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

**Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)**

**Egwyddorion i ategu trefniadau yn y dyfodol ar gyfer Taliadau Uniongyrchol yng Nghymru**

## 1. Pwy sy'n gymwys a'r dewis

1.1. Dylid cynnig y cyfle i bawb sydd ag anghenion gofal a chymorth cymwys ddefnyddio taliad uniongyrchol.[1] Mae hyn yn cynnwys y rheini heb ddigon o gapasiti i gytuno i gael taliad, lle gellir trefnu 'person addas'.

1.2. Dylid cynnig taliad uniongyrchol i unrhyw sydd ag anghenion cymwys ac sydd eisiau'r taliad.[2]

1.3. Ni ddylai gallu unigolyn i ymdopi fod yn rhwystr o reidrwydd rhag cael Taliad Uniongyrchol.

1.4. Dylid hysbysu unigolion ag anghenion cymwys am faint o gymorth y gallant ei ddisgwyl os byddant yn dewis defnyddio taliad uniongyrchol.

1.5 Dylai fod gwybodaeth briodol ar gael i unigolion ag anghenion cymwys cyn iddynt wneud penderfyniad ynghylch cael taliad uniongyrchol ai peidio.

1.6. Dylid gwneud y penderfyniad i gael taliad uniongyrchol ai peidio ar ôl cael esboniad llawn o'r manteision, y cyfrifoldebau (gan gynnwys y rhai o fod yn gyflogwr), faint o gymorth sydd ar gael a'r disgwyliadau.

1.7. Gall pobl ddewis peidio â chael taliad uniongyrchol. Os hynny, dylai awdurdodau lleol gofnodi rhesymau'r unigolyn dros wneud y penderfyniad wedi i wybodaeth briodol gael ei darparu.

---

[1] Yn unol â'r amod yn adrannau 34 (3) a (4) (mewn perthynas ag oedolion), 35(3), (4) a (5) (mewn perthynas â phlant) a 36 (3) i (7) (mewn perthynas â gofalwyr) o Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2013 bod yr awdurdod lleol yn fodlon y gall yr unigolyn neu'r person addas wneud y taliadau ei hun neu â chymorth. Mae hyn hefyd yn berthnasol i egwyddorion 1.2 ac 1.3 uchod.

[2] Bydd yr amgylchiadau cyfyngedig lle mae gan awdurdod lleol bŵer (ond nid dyletswydd) i wneud Taliadau Uniongyrchol (a amlinellir yn Atodiad B i'r Canllawiau Taliadau Uniongyrchol 2011), a'r eithriadau i Daliadau Uniongyrchol a amlinellir yn Atodiad C i Ganllawiau 2011, yn parhau.

1.8. Fodd bynnag, dylid annog a galluogi pobl sy'n dewis peidio â chael taliad uniongyrchol i godi llais a chymryd cymaint o reolaeth â phosibl dros y ffordd y darperir eu gofal a'u cymorth.

## 2. Gwybodaeth

2.1. Nod taliad uniongyrchol yw rhoi mwy o annibyniaeth a rheolaeth i unigolion dros eu ofal a'u cymorth, a dylai'r wybodaeth a ddarperir gwmpasu'r nodau hyn.

2.2. Dylai'r wybodaeth gael ei darparu gan awdurdod lleol a chan sefydliad cymorth annibynnol lleol.

2.3. Dylai'r wybodaeth a ddarperir i unigolion gynnwys gwybodaeth am y goblygiadau codi tâl a'r holl ystyriaethau ariannol perthnasol eraill.

2.4. Dylid annog awdurdodau lleol i sefydlu cynllun cymorth a all roi gwybodaeth ddiduedd ac arbenigol i'r unigolyn, y teulu, y gofalwr neu'r person addas. Mae sefydliadau cymorth lleol sy'n annibynnol ar yr awdurdod lleol mewn sefyllfa dda i roi cymorth diduedd o'r fath sydd wedi'i deilwra.

2.5. Dylai awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth gyfoes a chywir am y polisïau a'r gweithdrefnau ar daliadau uniongyrchol a sicrhau bod unigolion yn cael gwybodaeth gan y sefydliad cymorth lleol hefyd. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am y goblygiadau cyfreithiol o fod yn gyflogwr, a'r cymorth sydd ar gael i unigolion i'w galluogi i'w diwallu.

## 3. Cymorth

3.1. Ni ddylai'r gallu i ymdrin â'r taliad uniongyrchol fod yn ffactor tyngedfennol ac ni ddylai fod yn rhwystr rhag cael taliad uniongyrchol.

3.2 Dylid mynd ati ac annog ffyrdd o oresgyn rhwystrau i bobl sydd am gael taliad uniongyrchol. Mae hyn yn cynnwys darparu gwasanaethau eirioli priodol.

3.3. Dylai'r cymorth fod yn gymesur ag anghenion yr unigolyn sy'n ymdrin â'r taliad uniongyrchol, a dylai fod yn ddigonol i ganiatáu i'r rheini sy'n cael anhawster o ran ymdrin â thaliad uniongyrchol allu elwa ar ei ddefnyddio.

3.4. Dylid rhoi cymorth cyson i unigolion i roi cymaint o reolaeth â phosibl iddynt dros eu gofal a'u cymorth, a chymryd cymaint o gyfrifoldeb â phosibl.

3.5. Os bydd taliad uniongyrchol o fudd i'r unigolyn ac mae'r unigolyn wedi gwneud dewis gwybodus i gael taliad uniongyrchol, y ffactor tyngedfennol y dylid ei ystyried yw a fydd y cymorth a ddarperir yn cael ei gyfeirio at y dinesydd. Dylid rhoi dewis a hyblygrwydd i unigolion ynghylch y cymorth y maent yn ei dderbyn a phwy sy'n ei ddarparu. Dylai'r cymorth a ddarperir fod yn ddiduedd, yn gynhwysfawr ac yn ddigon hyblyg i ddiwallu anghenion unigolion, waeth pwy sy'n ei ddarparu.

3.6. Dylid annog modelau cydweithredol a menter gymdeithasol o reoli taliadau uniongyrchol a chefnogi defnyddwyr.

## 4 Adolygiadau a Chanlyniadau

4.1. Dylai adolygiadau o daliadau uniongyrchol fod yn seiliedig ar y canlyniadau sy'n cael eu cyflawni yn hytrach na chymhariaeth â darpariaeth ar sail gwasanaeth/anghenion.

4.2. Dylid cynnal adolygiadau'n ddigon aml i gefnogi pobl sy'n derbyn taliadau uniongyrchol. Dylai hyn ddigwydd o leiaf yn flynyddol, gan ddibynnu ar amgylchiadau unigolion, gan gynnwys pa mor dda y maent yn ymdopi â'r taliad uniongyrchol a faint o gymorth y mae ei angen arnynt.

4.3. Mae taliadau uniongyrchol yn rhoi dinasyddion/unigolion wrth wraidd penderfyniadau am eu gofal a'u cymorth. Y nod hefyd yw lleihau dylanwad yr awdurdodau lleol a rhoi cymaint â phosibl o ddewis a rheolaeth i unigolion dros y ffordd y caiff canlyniadau eu cyflawni.

4.4. Dylid ailasesu ac adolygu pan fydd person ifanc yn trosglwyddo i drefniant taliad uniongyrchol neu'n cymryd cyfrifoldeb am drefniant o'r fath, ac ar adegau eraill o drosglwyddo.

## 5. Gwerth a Chyfrifo Taliadau Uniongyrchol

5.1. Dylai swm y taliad uniongyrchol fod yn ddigonol i ganiatáu i unigolion gyflawni'r canlyniadau y cytunir arnynt, ac wedi'u cyfrifo i dalu cost yr anghenion a asesir a'r canlyniadau a bennir (yn amodol ar unrhyw gyfraniad gan yr unigolion sy'n derbyn y taliad).

5.2. Os yw defnyddiwr taliad uniongyrchol yn mynd ati i gyflogi cynorthwywyr personol, dylai swm y taliad uniongyrchol fod yn ddigonol i dalu'r holl gostau cyflogaeth cysylltiedig a diwallu'r goblygiadau cyfreithiol o fod yn gyflogwr.

**Gwenda Thomas AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MB/GT/5365/13

David Rees AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal
Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

28 Tachwedd 2013

Annwyl David,

Yn ddiweddar, dywedais y byddwn yn ysgrifennu atoch i roi'r diweddaraf am y cynllun 'Pan Fydda i'n Barod' ar gyfer cynllunio'r broses o bontio i fyd oedolion ar gyfer y sawl sy'n gadael gofal yng Nghymru.

Rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol fy mod wedi cytuno i dri awdurdod lleol (Gwynedd, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf) dreialu'r cynllun 'Pan Fydda i'n Barod' yn eu hardaloedd yn ystod 2013/14 (gan ddefnyddio'r pwerau yn Rhan 3 o Ddeddf Plant 1989) i'n galluogi ni, o glywed am y profiadau yn yr ardaloedd hynny i lunio canllaw a'i ddatblygu ymhellach. O wneud hyn gallwn sicrhau ei fod yn bodloni anghenion pobl ifanc a'r rhai sy'n gofalu amdanynt. Hefyd, Mae fy swyddogion wedi sefydlu grŵp monitro i goladu gwybodaeth a data o'r ardaloedd treialu er mwyn llunio'r datblygiadau pellach i'r canllaw hwn.

Mae'r canlynol yn rhan o'r grŵp monitro:- cynrychiolaeth o'r tair ardal dreialu, cynrychiolaeth o Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol/CLlLC, y Rhwydwaith Maethu a Gweithredu dros Blant. Hyd yn hyn mae dau gyfarfod wedi eu cynnal ac mae'n fwriad cynnal un arall yn gynnar ym mis Rhagfyr. Yn y cyfarfodydd teimlir bod gwaith da yn cael ei wneud. Mae fy swyddogion yn cael adroddiadau am brofiadau cyffredinol y tair ardal dreialu yn y cyfarfodydd hyn. Maent hefyd yn rhoi adroddiadau iddynt ar y themâu penodol a roddwyd iddynt, sef, agweddau ariannol ar Hap-dreial wedi'i Reoli, materion yn ymwneud â gofalwyr maeth yng Ngwynedd a gweithdrefnau a pholisïau – gan gynnwys materion diogelu - ym Merthyr.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Gwenda.Thomas@wales.gsi.gov.uk



*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)* *Printed on 100% recycled paper*

Mae'r cyfarfodydd wedi bod yn enghraifft wych o weithio ar y cyd. Mae'r trydydd sector wedi llunio offer pecyn monitro sy'n cynnwys holl amcanion y cynllun ac mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r grŵp â'i waith cynllunio.

Hyd yn hyn, yn y cyfarfodydd sydd wedi'u cynnal, nid yw'r rhanddeiliaid wedi dweud bod unrhyw fwlch mewn deddfwriaeth a allai gael effaith ar roi 'Pan Fydda i'n Barod' ar waith ar ddiwedd y cyfnod treialu.

Gobeithio bod yr wybodaeth yn y llythyr hwn yn ddefnyddiol.

Yn gywir

**Gwenda Thomas AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon